






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o'r cyngor

28 Awst 2020



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb

28 Awst 2020

Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Dengys canlyniadau astudiaeth heintiau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ystod wythnos 14 Awst i 20 Awst fod cyfartaledd o 0.04% o boblogaeth gymunedol Cymru wedi cael COVID-19. Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person ym mhob 2,800 neu 1,100 o bobl yn ystod y cyfnod hwn. Mae modelu'n awgrymu bod y gyfradd wedi bod yn weddol sefydlog dros y 6 wythnos diwethaf.
- Amcangyfrifir fod y gyfradd twf bresennol rhwng -0.09 a -0.02. Mae cryn ansicrwydd ynghylch yr union gyfradd twf; gallai heintiau fod yn lleihau rhwng dau a naw y cant y dydd.
- Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigurau hyn oherwydd meintiau sampl a niferoedd achosion isel.
- Cyhoeddir papurau o SAGE a ystyriwyd gan y Gell Cyngor Technegol a'r Grŵp yma: <https://www.gov.uk/government/collections/scientific-evidence-supporting-the-government-response-to-coronavirus-covid-19#meeting-minutes-and-supporting-papers>.
- Mae papurau ychwanegol a gyhoeddwyd gan y Grŵp Cyngor Technegol ar gael yma: <https://llyw.cymru/cyngor-ar-y-coronafeirws-gan-y-gell-cyngor-technegol>

Cyfradd twf

- Amcangyfrifir bod y gyfradd twf bresennol rhwng -0.09 a -0.02. Mae cryn ansicrwydd ynghylch yr union gyfradd twf; gallai heintiau fod yn lleihau rhwng dau i naw y cant y dydd. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli cyfradd twf a rhif atgynhyrchu Cymru. Y rheswm dros hyn yw bod yr amcangyfrifon hyn yn seiliedig ar niferoedd achosion isel ac yn cael eu dominyddu gan glystyrau o achosion ac nid ydynt yn ddigon cadarn i lywio penderfyniadau polisi.

Rhif atgynhyrchu

- Yr amcangyfrif diweddaraf o'r rhif atgynhyrchu R_t ar gyfer Cymru gan SAGE yw rhwng 0.50 a 0.9. Oherwydd y nifer isel o achosion, dangosir yr amcangyfrif o R_t bellach fel ystod heb amcangyfrif canolog. Mae'r bwloch hyder mawr yn awgrymu lefel uchel o ansicrwydd ynghylch union werth R_t .

- Bydd gwerth R_t cyson o dan 1 yn arwain at leihad mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty, ond bydd gwerth R_t cyson uwch nag 1 yn arwain at gynydd mewn achosion a derbyniadau i'r ysbyty. Wrth i nifer yr achosion ostwng, gall effaith digwyddiadau gor-wasgaru gynyddu lle gall achosion o ledaenu'r feirws i nifer o bobl mewn cyfnod byr o amser arwain at amrywiadau yn nifer yr achosion.

Yr Amcangyfrif Presennol o R_t yng Nghymru

- Mae tystiolaeth bod amrywiadau bychan mewn R_t rhwng gwahanol wledydd y DU. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn rhannol oherwydd bod niferoedd llai o achosion a marwolaethau o'i gymharu â Lloegr.
- Ni fydd unrhyw newidiadau o ran trosglwyddo a allai fod wedi digwydd yn y ddwy i dair wythnos ddiwethaf yn cael eu hadlewyrchu mewn data clinigol eto, nac ychwaith felly yn yr amcangyfrifon cyfredol o R_t .
- Mae tri lleoliad sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol: y gymuned, cartrefi gofal ac ysbytai. Nid yw'r rhain yn annibynnol; gall haint gael ei ledaenu rhwng ysbytai a chartrefi gofal, o'r lleoliadau hyn yn ôl i'r gymuned, ac i'r gwrthwyneb. Ni ellir casglu'r rhain drwy amcangyfrif R_t ar wahân ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai. Mae R_t ond yn ystyried trosglwyddiad i eraill pan fydd y feirws wedi'i gyflwyno mewn poblogaeth benodol.
- Mae SPI-M-O yn argymhell nad yw'r sefyllfa mewn lleoliadau penodol yn cael ei monitro gan ddefnyddio R_t ond yn hytrach sut y mae nifer yr achosion a marwolaethau ynddynt yn newid, a lle bo modd, ymchwiliad epidemiolegol i sut y mae'r tri epidemig yn rhyngweithio.

Amser haneru


- Ni ellir amcangyfrif amcangyfrifon dibynadwy o amseroedd haneru ar hyn o bryd oherwydd y niferoedd isel o dderbyniadau.

Glynu at y mesurau presennol a symudedd

- Mae [data diweddaraf IPSOS MORI](#) yn dangos bod llawer o bobl yng Nghymru yn parhau i ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol. Bu lleihad pellach yn y rhai a oedd yn gwneud teithiau hanfodol yng Nghymru gyda'r niferoedd sy'n


gweithio gartref, gan osgoi trafndiaeth gyhoeddus nad yw'n hanfodol a chadw 2 fetr oddi wrth eraill yn parhau i fod yn sefydlog.

- Mae'r ffigur isod yn cynrychioli data a gasglwyd ar-lein gan IPSOS MORI fel rhan o arolwg sawl gwlad ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau yn cynnwys c.600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael eu pwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru 16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/-4.8 pwynt canran.



- Nid yw symudedd yn ystod yr wythnos ddiwethaf yn dangos fawr ddim newid ar y cyfan. Mae newidiadau mewn symudedd dros y cyfnod hwnnw wedi bod yn debyg ar y cyfan yng Nghymru i gyfartaledd y DU.
- Yng nghanol mis Ebrill roedd symudedd [defnyddwyr Facebook](#) yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen, mae hyn bellach tua 6% yn is ac mae ychydig yn is na'r wythnos diwethaf. Mae tua 24% o ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru yn aros yn eu hunfan, yn debyg i'r wythnos flaenorol. Ar ddechrau mis Ebrill roedd tua 45% yn aros yn eu hunfan – roedd hyn tua 18% ar ddechrau mis Mawrth.
- Mae [data Apple](#) sy'n dangos ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi cynyddu ychydig yn ystod yr wythnos diwethaf, ond yn is na phythefnos yn ôl. O'i gymharu â'r llinell sylfaen mae'r data'n uwch na'r gwledydd eraill. Mae [data symudedd Google](#) yn dangos cynnydd parhaus mewn manwerthu a hamdden. Mae trafndiaeth gyhoeddus yn dangos gostyngiad tra bod categorïau eraill yn dangos ychydig iawn o newid.

- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd patrymau symudedd yng Nghymru a Lloegr yn weddol debyg. Rhwng canol mis Mai a dechrau mis Mehefin gwelwyd cynnydd mwy mewn symudedd yn Lloegr na Chymru, gyda'r Alban yn dangos patrwm tebyg i Gymru. Yn ystod mis Gorffennaf cynyddodd symudedd yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr a pharhaodd hynny tan ddechrau i ganol mis Awst. Ers hynny, mae'r newidiadau wedi bod yn debyg ar y cyfan.
- Mae ffigur 5 isod yn dangos y newid o ran symudedd yng Nghymru gan ddefnyddio data symudedd Google. Mae'r ffigurau yn seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol hynny sydd â data ar gael. Y gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos o 3 Ionawr-6 Chwefror 2020, yw'r llinell sylfaen.



Astudiaeth Heintiau SYG

- Yn yr wythnos rhwng 14 Awst a 20 Awst, roedd cyfartaledd o 0.04% o'r boblogaeth gymunedol wedi cael COVID-19 (cyfwng credadwy o 95%: 0.01% i 0.09%). Mae hyn yn cyfateb i tua 1 person o bob 2,800 (cyfwng credadwy o 95%: 1 o bob 14,700 i 1 o bob 1,200), neu 1,100 o bobl yn ystod y cyfnod hwn (cyfwng credadwy o 95%: 200 i 2,700).

- Mae modelu'n awgrymu bod y gyfradd wedi bod yn weddol sefydlog dros y 6 wythnos diwethaf.
- Bydd cryn ansicrwydd yn yr amcangyfrif hwn nes bydd maint y sampl yn cynyddu dros wythnosau pellach.

Ymchwil

- Ar hyn o bryd mae 5321 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd cyhoeddus brys COVID-19, sy'n gynydd o 270 yn y 7 diwrnod diwethaf.

Crynodeb gwyliadwriaeth ac epidemioleg wythnosol COVID-19 gan lechyd Cyhoeddus Cymru

- Mae nifer y bobl sy'n cysylltu â gwasanaeth 111 y GIG a Galw lechyd Cymru ar gyfer symptomau sy'n ymwneud â COVID-19 yn isel ac yn sefydlog.
- Erbyn hyn, mae galwadau ambiwlans sy'n gysylltiedig â COVID yn sefydlog.
- Mae'r profion positif wedi gostwng o bron i 50% ym mis Ebrill ac mae wedi aros yn is na 1% ers wythnos 31 (a ddaeth i ben ar 2 Awst).
- Yn ystod wythnos 34, cynyddodd nifer yr achosion COVID-19 a gadarnhawyd yn genedlaethol o gymharu â'r wythnos flaenorol ond maent yn parhau'n isel.
- Mae derbyniadau i'r ysbyty a'r ICU yn isel ac yn sefydlog.
- Mae prif ffocws y gweithgarwch diweddar wedi bod yng Nghaerdydd a Merthyr Tudful.
- Mae dosbarthiad yr achosion yn awgrymu bod nifer yr achosion a gadarnhawyd ledled Cymru yn parhau'n isel, gyda nifer fach o allgleifion.
- Mae 1 i 10 digwyddiad newydd yn parhau i gael eu hadrodd bob wythnos, mewn cartrefi gofal preswyl yn bennaf, ond gyda chynnydd diweddar mewn lleoliadau eraill gan gynnwys clystyrau o deuluoedd a ffrindiau a gweithleoedd.


Dangosfwrdd Data'r GIG


- Diweddarwyd data lechyd Cyhoeddus Cymru ar 26/08/2020
- Diweddarwyd data ysbytai ar 27/08/2020

Unedau Gofal Dwys Lefel 3

- O blith y cyfanswm o 123 o gleifion mewn Unedau Gofal Dwys lefel 3 yng Nghymru (sydd wedi gostwng o 125 ers yr adroddiad blaenorol):
 - Mae 1 yn glaf COVID a gadarnhawyd (yn BIPHD)
 - Amheuir bod 5 yn gleifion COVID (2 yn BIPAB a 3 yn BIPBA)
- O blith y byrddau iechyd sydd ag Unedau Gofal Dwys lefel 3:
 - Mae 63% o welyau BIPCTM yn cael eu defnyddio (dim un yn glaf COVID)
 - Mae 53% o welyau BIPCF yn cael eu defnyddio (dim un yn glaf COVID)
 - Mae 51% o welyau BIPBC yn cael eu defnyddio (dim un yn glaf COVID)
 - Mae 50% o welyau BIPHD yn cael eu defnyddio (gydag 1 claf COVID wedi'i gadarnhau)
 - Mae llai na 50% o welyau BIPBA a BIPAB yn cael eu defnyddio.

Daily L3 ICU Confirmed COVID19 Patients





Ffon fesur tebygolrwydd Pennaeth y Proffesiwn Asesu Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw’n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi Tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a ddarperir gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb ar draws yn y gwahanol gyngor a roddir.

